

Polisi Mynediad at Wybodaeth

2020



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

1 Polisi Mynediad at Wybodaeth

1.1 Pwrpas

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r sail a ddefnyddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer darparu gwybodaeth. Mae'n cynnwys manylion am y canlynol:

- yr egwyddorion sy'n llywio ein hymagwedd at fod yn agored;
- yr egwyddorion a ddefnyddir yn sail wrth gyhoeddi gwybodaeth neu ei darparu ar gais; a'r
- amgylchiadau lle gallwn ddal gwybodaeth yn ôl.

Y mae hefyd yn esbonio sut i wneud cais am wybodaeth a ddelir gan CCAUC.

1.2 Cwmpas

Mae CCAUC yn sicrhau bod ystod eang o wybodaeth ar gael yn rheolaidd, gan gynnwys drwy gylchlythyrau, adroddiadau, papurau'r Cyngor, dogfennau ymgynghori a datganiadau i'r wasg. Gellir cyrchu rhan helaeth o'r wybodaeth hon yn uniongyrchol drwy wefan CCAUC (www.hefcw.ac.uk). Mae CCAUC hefyd yn sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth ar gael i sefydliadau, cyrff cyllido partner, rhanddeiliaid a staff, yn rhan o brosesau gweinyddol arferol.

2 Egwyddorion Ein Hymagwedd at Fod yn Agored

Mae ein hymagwedd at fod yn agored yn unol â'r hyn a nodir yn y [Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth](#) gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwmo i'r egwyddorion canlynol er mwyn cyflawni ein hymrwymadau a'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, a'r codau ymarfer a'r canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan adrannau o'r llywodraeth a chan y Comisiynydd Gwybodaeth:

Egwyddor 1: Bod mor agored ag y bo modd

Byddwn mor agored ag y bo modd

- Byddwn mor agored ag y bo modd ac ni fyddwn ond yn dal gwybodaeth yn ôl os yw'n perthyn i un o'r categorïau sydd wedi'u heithrio (gweler **Atodiad A**), neu pe byddai datgelu'r wybodaeth yn torri unrhyw un o ofynion eraill y gyfraith.
- Mae **Atodiad B** yn dangos y profion (profion 'lles y cyhoedd' a 'niwed sylweddol') y byddwn yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid datgelu neu ddal gwybodaeth yn ôl o dan y Polisi hwn.

- Bydd ein staff yn derbyn canllawiau a hyfforddiant ar fod mor agored ag y bo modd.
- Byddwn yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i gyhoeddi gwybodaeth onid yw wedi'i heithrio o dan y cod hwn.
- Mae agendâu, cofnodion a phapurau Cyngor CCAUC (ers Rhagfyr 2002) wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan, yn amodol ar eithriadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Gellir cael copïau o bapurau o gyfarfodydd Cyngor CCAUC cyn mis Rhagfyr 2002 drwy'r [Archifau Cenedlaethol](#) neu ar gais.

Egwyddor 2: Defnyddio Iaith Glir

Byddwn yn cyflwyno ein busnes mewn iaith glir, yn unol â'n polisïau dwyieithrwydd a chan dalu sylw i wahanol anghenion

- Byddwn yn defnyddio iaith blaen, niwtral o ran y rhywiau, wrth ddelio â'r cyhoedd.
- Byddwn yn llunio dogfennau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.
- Byddwn yn parchu'r anghenion amrywiol sydd gan wahanol sectorau o'r gymuned.

Egwyddor 3: Cynnal Cynllun Cyhoeddi

Byddwn yn cynnal Cynllun Cyhoeddi

- Mae'r Cynllun yn nodi ein hymrwymiad i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ac mae'n nodi:
 - yr wybodaeth yr ydym yn addo ei chyhoeddi fel mater o drefn;
 - sut y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi;
 - a yw'r wybodaeth ar gael yn ddi-dâl ai peidio.
- Cyhoeddir y Cynllun ar ein gwefan.
- Gall pobl heb fynediad i'r Rhyngrwyd ofyn am gopi o'r Cynllun neu'r dogfennau a restrir ynddo drwy gysylltu â'n swyddfa.

Egwyddor 4: Cyhoeddi ar y Rhyngrwyd

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar y Rhyngrwyd

- Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth sy'n perthyn i'r categorïau (dosbarthiadau gwybodaeth) a restrir yn ein Cynllun Cyhoeddi.

- Wrth symud i ddatblygu presenoldeb ar wahân ar y we ar gyfer CCAUC, byddwn yn sicrhau bod ein gwefan newydd:
 - yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol a chenedlaethol ar gyfer hygyrchedd;
 - yn darparu cyfleusterau chwilio, adborth a ffurflenni cyswllt i holi ymhellach a yw gwybodaeth ar gael; ac
 - yn darparu gwybodaeth yn ddwyieithog yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg

Egwyddor 5: Parchu Preifatrwydd, Cyfrinachedd a'r Gyfraith

Byddwn yn parchu preifatrwydd personol, y ddyletswydd cyfrinachedd a'r holl gyfreithiau sy'n rheoli ryddhau gwybodaeth.

- Cyn inni ymateb i gais a fydd yn cynnwys datgelu gwybodaeth am drydydd partïon y bydd datgelu yn debygol o effeithio ar eu buddiannau, byddwn fel arfer yn ymgynghori â hwy er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatgeliad yn cydymffurfio â'r gyfraith.
- Mae enghreifftiau o ddeddfwriaeth a drafodir o dan yr egwyddor hon yn cynnwys Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1998, Deddf Hawliau Dynol 1998, y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Enghraifft arall yw'r gyfraith difenwi.

Egwyddor 6: Ymatebion Prydlon a Chynhwysfawr

Byddwn yn ymateb yn brydlon ac mewn modd cynhwysfawr i geisiadau am wybodaeth.

- Byddwn yn anfon gwybodaeth y byddwch yn gwneud cais amdani, ac nad yw wedi'i heithrio, yn brydlon a, beth bynnag, o fewn y terfynau amser cyfreithiol.
- Efallai y byddwn yn anfon gwybodaeth fesul cyfran er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn cymaint o wybodaeth mor fuan ag sy'n bosibl.
- Mae'r gyfraith yn gosod terfynau amser syml ac yn pennu sut y gallwn, mewn rhai amgylchiadau, gymryd mwy o amser. Os bydd angen inni gymryd mwy o amser, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio pam gan bennu terfyn amser newydd.
- Bydd unrhyw wybodaeth a ddatgelir gennym yn cael ei datgelu yn iaith yr wybodaeth honno.
- Os byddwn yn derbyn cais yn Gymraeg, bydd y llythyr cyflwyno ar gyfer ein hymateb yn Gymraeg.

- Nid oes rhaid inni gaffael gwybodaeth nad yw yn ein meddiant. Os credwn fod awdurdod cyhoeddus arall yn dal yr holl wybodaeth neu gyfran ohoni, byddwn yn trafod trosglwyddo eich cais â'r awdurdod hwnnw. Byddwn yn trosglwyddo'r cais os ydych yn cytuno i hynny neu, os ddim, yn darparu manylion yr awdurdod cyhoeddus arall.
- Byddwn bob amser mor barod i helpu ac mor agored ag sy'n bosibl ond, lle bo'n briodol, byddwn yn ymdrin â cheisiadau blinderus ac ailadroddus yn unol â'r gyfraith.
- Os gwrthodwn anfon gwybodaeth atoch, byddwn yn anfon hysbysiad gwrthod o fewn y terfyn amser cyfreithiol ac yn dweud wrthyich sut y gallwch apelio yn erbyn ein penderfyniad (gweler Egwyddor 7).

Egwyddor 7: Hawl i Apelio

Byddwn yn rhoi'r hawl i apelio os nad yw'r ymholwr yn fodlon â'r ymateb a gafwyd.

- Byddwn yn ceisio darparu'r wybodaeth yr ydych yn gwneud cais amdani ac yn osgoi rhoi gormod neu rhy ychydig o wybodaeth. Os nad yw hynny'n bodloni eich anghenion, fe'ch anogir i gysylltu â'r sawl a ymatebodd i'ch cais er mwyn trafod ffyrdd o ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen.
- Os ydych chi'n anhapus â'n penderfyniad ynghylch eich cais am wybodaeth, cewch ofyn, mewn ysgrifen, inni gynnal adolygiad mewnol. Bydd yr adolygiad hwnnw'n cael ei gynnal gan aelod uwch o staff na fu'n ymwneud â'r cais cyn hynny. Byddwn yn eich hysbysu ynghylch canlyniad yr adolygiad mewnol cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Os ydych chi'n anfodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, cewch gyfeirio'r mater i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Egwyddor 8: Darparu Gwybodaeth yn Rhad ac Am Ddim

Byddwn yn darparu gwybodaeth yn rhad ac am ddim lle bo modd.

- Ein nod yw osgoi codi tâl os oes modd. Byddwn yn arfer ein doethineb wrth benderfynu a ddylid codi tâl neu beidio, hyd yn oed os oes gennym hawl gyfreithiol i godi tâl.
- Caniateir inni godi tâl am wybodaeth. Byddwn yn codi tâl am rai cyhoeddiadau (dangosir pa rai yn ein Cynllun Cyhoeddiadau). Cawn godi tâl o £10 am geisiadau mynediad gan y testun o dan y Ddeddf Diogelu Data.

- Ni fyddwn ond yn codi tâl am unrhyw geisiadau eraill ar wahân i geisiadau mynediad gan y testun a chyhoeddiadau mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd unrhyw daliadau a godir gennym yn unol â Rheoliadau Ffioedd y llywodraeth.
- Mae'n bosibl y byddwn yn adolygu'r egwyddor hon yn unol â phrofiad.

3 Statws

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'r wybodaeth a gofnodwyd ac a ddelir gan CCAUC. Nid yw'r Polisi yn diystyru unrhyw ddarpariaethau cyfreithiol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu gwybodaeth, neu'n atal hynny.

4 Adolygu'r Polisi Hwn

Byddwn yn adolygu'r Polisi hwn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fodloni gofynion cyfreithiol sy'n rheoli mynediad at wybodaeth.

5 Ceisiadau am Wybodaeth

5.1 Rhoi Cyngor a Chymorth

Hyd y bo'n rhesymol ac yn bosibl, byddwn yn rhoi cyngor a chymorth wrth ymdrin â cheisiadau am wybodaeth. (Darperir manylion cyswllt isod.) Mae rhan helaeth o'r wybodaeth a gyhoeddir gennym ar gael yn uniongyrchol o'n gwefan (www.hefcw.ac.uk).

5.2 Gwneud Cais

Gallwch wneud cais am wybodaeth a ddelir gan CCAUC drwy sawl ffordd:

- mewn ysgrifen, gan gynnwys drwy ffacs neu e-bost. Y ffordd orau o wneud hyn yw defnyddio ein profforma 'Cais am Wybodaeth', sydd ar gael o'n gwefan neu o'n swyddfa. Mae'n rhaid i bob cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gael ei gwneud mewn ysgrifen.
- dros y ffôn neu wyneb yn wyneb os:
 - nad ydych yn gallu rhoi eich cais mewn ysgrifen oherwydd anabledd neu am ryw reswm arall;
 - ydych chi'n gwneud cais am wybodaeth amgylcheddol

Os nad yw eich cais mewn ysgrifen, byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani.

Wrth wneud cais am wybodaeth, mae'n rhaid i chi:

- roi enw a chyfeiriad ar gyfer anfon ymateb

- rhoi digon o fanylion inni allu adnabod yr wybodaeth yr ydych ei heisiau. Os nad yw eich cais yn ddigon manwl inni benderfynu pa wybodaeth yr ydych ei heisiau, byddwn yn gofyn am gadarnhad gennych chi.
- rhoi prawf adnabod os ydych yn gwneud cais am eich data personol eich hun. Efallai y gofynnir ichi dalu ffi fechan am geisiadau o'r fath.

Cewch ddweud wrthym sut yr hoffech dderbyn yr wybodaeth. Lle bo'n rhesymol, byddwn yn darparu gwybodaeth mewn fformat o'ch dewis. Os na allwn wneud hyn, byddwn yn esbonio pam.

5.3 Pa Gyfraith sy'n Gymwys?

Does dim rhaid ichi grybwyll pa gyfraith sydd yn gymwys yn eich tyb chi i'ch cais am wybodaeth. Byddwn yn casglu'r wybodaeth yr ydych yn ei cheisio ac yn ei harchwilio i weld pa gyfreithiau sy'n berthnasol ac wedyn yn eu cymhwyso. Gallai hyn olygu ein bod yn cymhwyso mwy nag un gyfraith i'ch cais.

6 Manylion Cyswllt

- 6.1 Ar ôl llenwi'r profforma 'Cais am Wybodaeth' (ar gael o'n gwefan, neu ar gopi caled o'n swyddfa), dylech ei hanfon yn ôl i:

Ysgrifennydd y Cyngor
CCAUC
Tŷ Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

Ffacs: 029 2085 9700
E-bost: info@hefcw.ac.uk

Gallwch hefyd gyflwyno eich cais am wybodaeth ar ffurf llythyr, ffacs neu e-bost, ond cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys cymaint o fanylion ag sy'n bosibl i'n galluogi i adnabod yr wybodaeth a geisir, a'ch bod hefyd yn cynnwys:

- eich enw a'r cyfeiriad lle'r hoffech inni anfon yr wybodaeth
- union fanylion yr wybodaeth yr hoffech ei chael
- sut yr hoffech inni anfon yr wybodaeth atoch (er enghraifft, ar ffurf copi caled, drwy e-bost neu ar ddisg cyfrifiadur)

- 6.2 Gellir cysylltu â swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

The Information Commissioner
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

<https://ico.org.uk/>

<https://ico.org.uk/global/contact-us/postal-addresses/>

Ffôn: 0303 123 1113 (pris galwad leol); 01625 545 745 (pris galwad genedlaethol)

Atodiad A

Rhestr Eithriadau

Bwriedir i'r rhestr hon fod yn ffynhonnell gyfeirio gyflym ar gyfer yr eithriadau a'r profion a ddefnyddir gennym i benderfynu a yw eithriad yn berthnasol i wybodaeth a gesiwyd. Am y testun llawn yn gysylltiedig â phob eithriad, dylech ddarllen y ddeddfwriaeth briodol.

Yn deillio o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

| Adran y DdRhG | Eithriad | Absoliwt neu Amodol | Prawf lles y cyhoedd? | Prawf niwed sylweddol? |
|---------------|---|---------------------|-----------------------|--|
| 21 | Gwybodaeth sy'n hygyrch i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill | Absoliwt | Na | Na |
| 23 | Gwybodaeth a ddarperir gan gyrff sy'n delio â materion diogelwch, neu'n ymwneud â'r cyrff hynny | Absoliwt | Na | Na |
| 40 (1) | Gwybodaeth bersonol (am yr ymgeisydd) | Absoliwt | Na | Na |
| 40 (2) | Gwybodaeth bersonol am eraill lle bo'r amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 2(3)(f)(ii) Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol | Absoliwt | Na | Na |
| 41 | Gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol | Absoliwt | Na | Na |
| 44 | Gwaharddiadau ar ddatgelu | Absoliwt | Na | Na |
| 32 | Cofnodion llys ac ati. | Absoliwt | Na | Ie |
| 34 | Braint seneddol | Absoliwt | Na | Ie, ac eithrio pan fo tystysgrif wedi'i chyhoeddi o dan A34(3) |
| 40 (2) | Gwybodaeth bersonol am eraill lle nad yw'r amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 2(3)(f)(ii) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol | Amodol | Ie | Na |
| 39 | Gwybodaeth Amgylcheddol | Amodol | Ie | Na |

| Adran y DdRhG | Eithriad | Absoliwt neu Amodol | Prawf lles y cyhoedd? | Prawf niwed sylweddol? |
|----------------------|--|----------------------------|------------------------------|--|
| 24 | Diogelwch Cenedlaethol | Amodol | le | le, ac eithrio pan fo tystysgrif wedi'i chyhoeddi o dan A24(3) |
| 22 | Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol | Amodol | le | le |
| 26 | Amddiffyn | Amodol | le | le |
| 27 | Cysylltiadau rhyngwladol | Amodol | le | le |
| 28 | Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig | Amodol | le | le |
| 29 | Yr Economi | Amodol | le | le |
| 30 | Ymchwiliadau ac achosion a gynhelir gan awdurdodau cyhoeddus | Amodol | le | le |
| 31 | Gorfodi'r gyfraith | Amodol | le | le |
| 33 | Swyddogaethau archwilio | Amodol | le | le |
| 35 | Llunio polisi'r llywodraeth ac ati. | Amodol | le | le |
| 36 | Cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol | Amodol | le | le |
| 37 | Cyfathrebu â'i Mawrhydi ac ati ac anrhydeddau | Amodol | le | le |
| 38 | Iechyd a diogelwch | Amodol | le | le |
| 42 | Braint broffesiynol gyfreithiol | Amodol | le | le |
| 43 | Buddiannau masnachol | Amodol | le | le |

Yn deillio o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

| Rheoliad EIR 2004 | Eithriad | Prawf lles y cyhoedd? | Prawf niwed sylweddol ? |
|--------------------------|---|------------------------------|--------------------------------|
| 12 (4) a | Gwybodaeth na ddelir pan ddaw'r cais i law | le | Na |
| 12 (4) b | Mae'r cais yn amlwg yn afresymol | le | Na |
| 12 (4) c | Wedi'i llunio mewn modd rhy gyffredinol | le | Na |
| 12 (5) g | Diogelu'r amgylchedd y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddo | le | Na |
| 12 (4) d | Mae'r deunydd yn dal i gael ei gwblhau, dogfennau anorffenedig neu ddata anghyflawn | le | le |
| 12 (4) e | Cyfathrebu mewnol | le | le |

| Rheoliad EIR 2004 | Eithriad | Prawf lles y cyhoedd? | Prawf niwed sylweddol ? |
|-------------------|---|-----------------------|-------------------------|
| 12 (5) | Lle byddai datgelu yn cael effaith andwyol ar: | | |
| 12 (5) a | Cysylltiadau rhyngwladol, amddiffyn, diogelwch cenedlaethol neu ddiogelwch y cyhoedd | le | le |
| 12 (5) b | Cwrs cyfiawnder, prawf teg, ymholiad troseddol neu ddisgyblu | le | le |
| 12 (5) c | Hawliau eiddo deallusol | le | le |
| 12 (5) d | Cyfrinachedd achos awdurdod cyhoeddus lle darperir cyfrinachedd yn ôl y gyfraith | le | le |
| 12 (5) e | Cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol lle darperir cyfrinachedd yn ôl y gyfraith i amddiffyn budd economaidd dilys | le | le |
| 12 (5) f | Buddiannau'r sawl a ddarparodd yr wybodaeth, lle bo'r unigolyn hwnnw: (i) heb ddarparu'r wybodaeth o dan rwymedigaeth gyfreithiol (ii) heb ei darparu mewn amgylchiadau lle bo gan yr awdurdod cyhoeddus hawl i ddatgelu'r wybodaeth ar wahân i'r rheoliadau hyn (iii) heb gydsynio i ddatgelu'r wybodaeth | le | le |

Yn deillio o Ddeddf Diogelu Data 1998

Yn Neddf Diogelu Data 1998 ac mewn gorchmynion a luniwyd o dan y Ddeddf honno, nodir eithriadau i'r ddyletswydd i ddarparu mynediad i'ch data personol. Byddwn yn eu cymhwyso fel y maent yn ymddangos yn y ddeddfwriaeth.

Atodiad B

Sut y byddwn yn cymhwyso'r profion lles y cyhoedd a niwed sylweddol i eithriadau

Dengys Atodiad A, fesul eithriad, a gaiff y profion lles y cyhoedd a niwed sylweddol eu cymhwyso i wybodaeth sy'n perthyn i'r eithriadau. Yn yr atodiad hwn nodir yr hyn y mae pob prawf yn ei olygu:

- Os bydd Atodiad A yn dangos bod eithriad yn absoliwt, ac na fyddwn yn cymhwyso prawf lles y cyhoedd na'r prawf niwed sylweddol, mae hynny'n golygu y byddwn yn dibynnu ar yr eithriad hwnnw ac yn peidio datgelu'r wybodaeth.
- Os bydd Atodiad A yn dangos bod eithriad yn absoliwt, ac y byddwn yn cymhwyso'r prawf niwed sylweddol, mae hynny'n golygu na fyddwn ond yn dibynnu ar yr eithriad pe bai datgelu'r wybodaeth yn achosi neu'n debygol o achosi niwed sylweddol i'r pwrpas y mae'r eithriad yn ceisio ei warchod;
- Os yw Atodiad A yn dangos bod eithriad yn amodol, ac na fyddwn ond yn cymhwyso prawf lles y cyhoedd, mae hynny'n golygu na fyddwn ond yn dibynnu ar yr eithriad os yw lles y cyhoedd o ddal yr wybodaeth yn ôl i'r pwrpas y mae'r eithriad yn ceisio ei warchod, yn gwrthbwysu lles y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth;
- Os yw Atodiad A yn dangos bod eithriad yn amodol, ac y byddwn yn cymhwyso prawf lles y cyhoedd a'r prawf niwed sylweddol, ni fyddwn ond yn dibynnu ar yr eithriad pe bai datgelu'r wybodaeth yn achosi neu'n debygol o achosi niwed sylweddol i'r pwrpas y mae'r eithriad yn ceisio ei warchod. Hyd yn oed pe bai datgelu yn achosi neu'n debygol o achosi'r niwed sylweddol hwnnw, ni fyddwn ond yn dibynnu ar yr eithriad os yw'r niwed hwnnw'n gwrthbwysu lles y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.